RHIFYN
EDITION
62
23.05.24

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

03.06.24 - Plant yn dychwelyd - hanner tymor olaf
Children return - final half term
03.06.24 - Wythnos Mabolgampau (Opsiwn 1)
Sports Days Week (Option 1)
10.06.24 - Wythnos Mabolgampau (Opsiwn 2)
Sports Days Week (Option 2)
19.07.24 - Plant yn gorffen ar gyfer gwyliau'r Haf
Children finish for the Summer break
03.09.24 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Hydref 2024
Children return - Autumn Term 2024

PERFFORMIADAU'R HAF
SUMMER PERFORMANCES

Cofiwch fwrw golwg dros y llythyr yma a anfonwyd at bawb yr wythnos hon. Pedwar tocyn y teulu sydd ar gyfer pob sioe gydag unrhyw docynnau dros ben yn cael eu gwerthu ar sail cyntaf i'r felin - rhagor o wybodaeth i'w rhannu maes o law.
Remember to have a look at this letter which was sent out to everyone this week. Four tickets per family are allocated for the shows with any surplus tickets being offered for sale on a first come, first served basis - further information to be shared in due course.



CWIS DIM CLEM
THE 'NO IDEA' QUIZ

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm o blant Blwyddyn 6 oedd wedi cystadlu yn 'Cwis Dim Clem' @MenterIaithRhCT y tymor hwn.
Congratulations to the team of Year 6 children who competed in @MenterIaithRhCT's 'No Idea Quiz' this term.



EISTEDDFOD 2024
EISTEDDFOD 2024

Annogir y plant i wisgo dillad coch i'r ysgol ar 24.05.24 a dod â chyfraniad o £1 tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol RCT fis Awst 2024.
The children are encouraged to wear red clothing to school on 24.05.24 and bring a £1 contribution towards the RCT National Eisteddfod August 2024 fundraising campaign.

EISTEDDFOD
Rhondda Cynon Taf

EISTEDDFOD YR URDD 2024
THE URDD EISTEDDFOD 2024

Hoffem ddymuno pob lwc i'r holl ddisgyblion fydd yn cynrychioli'r ysgol ar faes Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn, yn ystod y gwyliau. #EwchAmdani
We'd like to wish all the pupils who are representing the school in the Urdd Eisteddfod in Maldwyn during the Whitsun break the very best of luck. #GoForIt





AP MAES YR EISTEDDFOD *THE EISTEDDFOD APP*

MABOLGAMPAU'R YSGOL
SCHOOL SPORTS DAYS

Edrychwn ymlaen at gynnal boreau Mabolgampau ar gae'r ysgol unwaith eto gan estyn croeso i'n rhieni / gwarcheidwaid ymuno â ni er mwyn cefnogi. Gall unrhyw drefniadau a wneir newid os bydd rhaid. (Opsiwn 2 = os bydd hi'n bwrw glaw yn ystod dyddiadau Opsiwn 1!)
We look forward to holding Sports Day mornings once again on the school field and extending an invite to our parents / carers to join us in support. Any arrangements made are subject to change should need be. (Option 2 = were it to rain during the Option 1 dates!)

	Meithrin a Derbyn *Nursery and Reception*	Blwyddyn 1 a 2 *Year 1 and 2*	Blwyddyn 3 a 4 *Year 3 and 4*	Blwyddyn 5 a 6 *Year 5 and 6*
Opsiwn 1 *Option 1*	**03.06.24**	**04.06.24**	**05.06.24**	**06.06.24**
Opsiwn 2 *Option 2*	**10.06.24**	**11.06.24**	**12.06.24**	**13.06.24**

Rasys yn dechrau: 9:30 yb *Races start: 9:30 am*



ADRODDIADAU CYNNYDD
PROGRESS REPORTS

Bydd Adroddiadau Cynnydd Blynyddol y plant, ynghyd â threfniadau'r dosbarthiadau ar gyfer 2024-2025, yn cael eu rhannu gyda rhieni / gwarcheidwaid trwy ebost ar Orffennaf 5ed.

The pupils' Annual Progress Reports, along with Class arrangements for 2024-2025, will be shared by email with parents / carers on July 5th.

AP YR YSGOL
THE SCHOOL APP

Cofiwch, os nad ydych wedi lawrlwytho Ap yr Ysgol mae perygl i chi golli negeseuon pwysig. Cliciwch ar yr eiconau isod i lawrlwytho'r Ap. Cofiwch fwrw golwg yn rheolaidd ar galendr ac adran RHIENI gwefan yr ysgol yn ogystal â'ch cyfrif ebost.

Remember, if you haven't downloaded the School App you are most likely missing important messages. Click on the icons below to download the App. Remember to regularly look at the calendar and PARENTS section of the school website and your email accounts.



DIOGELWCH Y SAFLE
SITE SAFETY

Hoffem atgoffa pawb i beidio â gyrru i mewn i faes parcio'r ysgol ar unrhyw adeg er diogelwch y plant, rhieni a staff sy'n cyrraedd a gadael y safle, os gwelwch yn dda. Yn yr un modd, gofynnir yn garedig i chi beidio â gyrru trwy a pharcio ym mae bysiau'r ysgol os gwelwch yn dda. Diolch am roi gwybod i unrhyw oedolyn sy'n debygol o ymweld â ni.

We should like to remind everyone not to drive into the school car park at any time for the safety of children, parents and staff who may be arriving and leaving the site, please. By the same token, you are kindly asked not to drive through or park in the school bus bay, please. Thank you for informing any other adults who visit us.



Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.com**

LLWYDDIANT Y TU FAS I'R YSGOL
SUCCESS OUTSIDE OF SCHOOL

Mae nifer o blant wedi bod yn brysur iawn y tu fas i'r ysgol yn ddiweddar. Cofiwch roi gwybod i ni os hoffech chi gynnwys llwyddiannau'ch plentyn / plant yn Llais Llantrisant yn y dyfodol.

Many children have been very busy uring their time outside of school recently. Remember to let us know if you would like us to include your child(ren)'s successes in a future edition of Llais Llantrisant.



Dyma HG yn arwyddo yn swyddogol i Cardiff City FC yn ddiweddar. Cafodd gyfle i chwarae ar y cae yn Stadiwm Cardiff City cyn cwrdd â chwaraewyr y tîm cyntaf, ac yna cymryd rhan mewn cyflwyniad swyddogol ac arwyddo'r cytundeb.

Here's HG officially signing for Cardiff City FC recently. He had the chance to play in Cardiff City Stadium and to meet players of the first team before then taking part in the official presentation and contract signing.



Llongyfarchiadau mawr i TJ am godi dros £750 at elusen 'Cancer Research' wrth gymryd rhan mewn Ras Fwdlyd 5K i Blant. Arbennig!

Many congratulations to TJ who raised more than £750 for 'Cancer Research' recently when he took part in the 5K Muddy Kids Race for Life for Children. Excellent!



Mae SA newydd ddechrau cystadlu yn y Naid Uchel mewn cystadlaethau athletau ac wedi gwneud ei gorau yn y ddwy gystadleuaeth ddiwethaf (1.20m a 1.25m). Mae hi'n gwneud mor dda fel ei bod hi bellach yn y rhestr Pŵer 10 ar gyfer merched dan 13, Cymru. Hi yw rhif 6 yn gyffredinol ond yn ei grŵp blwyddyn (Blwyddyn 6) mae hi wedi'i gosod yn rhif 2.

SA has just started competing in the High Jump in athletics competitions and has jumped two personal bests in the last two competitions (1.20m and 1.25m). She is doing so well that she is now in ranked in the Power of 10 for Welsh Under 13 girls. She is number 6 overall but in her year group (Year 6) she is ranked as number 2.

Cynrychiolodd RM De Cymru yng Nghwpan y Sir dan 10 gan chwarae tenis yn erbyn rhai o siroedd cryfion Lloegr. Cafodd RM lwyddiant mawr ym mhob un o'i gemau - senglau a dyblau - a thîm De Cymru enillodd y digwyddiad. Mae RM a'r tîm nawr yn mynd i'r Wirral ym mis Mehefin ar gyfer y Rowndiau Terfynol Cenedlaethol!

RM represented South Wales in the U10 County Cup playing tennis against some strong English counties. RM had great success in all of her singles and doubles matches and the South Wales team won the event. RM and her team mates are now off to The Wirral in June for the National Finals!





Llongyfarchiadau mawr i GD, ME ac OB a fu'n cystadlu yn rasys Traws Gwlad yr Urdd yn Aberystwyth y tymor hwn. Daeth y tîm yn drydydd! Da iawn wir, fechgyn!

Many congratulations to GD, ME and OB who competed in the Urdd Cross Country races in Aberystwyth this term. The team came third! Well done, boys!

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**

BYD CHWARAEON

THE WORLD OF SPORT

Mae nifer o blant wedi bod yn brysur iawn y tymor hwn yn cystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon. Hoffem longyfarch y plant i gyd a diolch iddynt am fod yn esiampl i bawb wrth iddynt gynrychioli'r ysgol.

A number of children have been very busy this term taking part in various sporting competitions. We should like to congratulate the children and thank them for their exemplary behaviour whilst representing the school.



















DIOLCH

THANK YOU

Diolch yn fawr iawn i Mr Jones a Mrs Jenkins am hyfforddi'r plant ac i bawb - rhieni, ffrindiau a theuluoedd - am y gefnogaeth ac am gynorthwyo y tymor hwn.

Many thanks to Mr Jones and Mrs Jenkins for coaching the children and to everyone -parents, friends and families - for their support and assistance this term.